RHEOLIADAU ACADEMAIDD CYFFREDINOL

**Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd**

1. Dim ond os ydynt yw'n parhau i wneud cynnydd derbyniol, a ddangosir gan y ffaith eu bod yn bresennol mewn dosbarthiadau, yn perfformio'n foddhaol mewn arholiadau ac yn cyflawni'n briodol unrhyw waith arall a osodir, y caniateir i fyfyrwyr barhau â chwrs astudio cymeradwy.

2. Bydd gan Ddirprwy Is-Gangellorion yr Athrofeydd (neu'r sawl a awdurdodir ar eu rhan) y grym i argymell y dylai myfyrwyr nad yw eu perfformiad academaidd yn bodloni'r lefelau gofynnol, gael eu diarddel Brifysgol dros-dro neu'n barhaol.

3. Gall gofynion o'r fath fod yn absoliwt neu'n amodol ar i'r myfyriwr dan sylw fethu â chydymffurfio ag amod sy'n gysylltiedig â'i astudiaethau a bennwyd gan Gyfarwyddwr yr Athrofa (neu'r sawl a awdurdodir ar ei ran).

**4. MYFYRWYR ISRADDEDIG / UWCHRADDEDIG TRWY GWRS NAD YDYNT YN BODLONI GOFYNION YMRODDIAD I'W HASTUDIAETHAU A/NEU GYFLWYNO GWAITH**

4.1 Mae'r Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr yn ymroi i'r holl weithgareddau a drefnwyd (mewn person ac ar-lein), a'r holl ddeunyddiau sydd ar gael drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir (Blackboard/Canvas) a Chipio Darlithoedd (Panopto). Maent yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i, ddarlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a thiwtorialau. Disgwylir i fyfyrwyr Meistr Ar-lein ymgysylltu'n llawn â'u hastudiaethau drwy gofrestru ar gyfer y modiwlau yn eu rhaglen radd ar-lein. Gall y Brifysgol fynnu hefyd bod myfyrwyr yn cydymffurfio â gofynion presenoldeb ychwanegol er mwyn galluogi'r Brifysgol i gydymffurfio â gofynion cyrff allanol. Gallai defnydd twyllodrus o systemau monitro presenoldeb ac/neu ymroddiad academaidd arwain at gamau disgyblu yn unol â'r Rheolau a'r Rheoliadau i Fyfyrwyr.

4.2 Ar ddechrau pob sesiwn, bydd yr Athrofeydd yn hysbysu myfyrwyr sy'n dilyn eu modiwlau o ofynion y Brifysgol ar gyfer ymroddiad academaidd a chyflwyno gwaith,

ynghyd ag unrhyw ofynion penodol ychwanegol ar lefel Athrofa. Dylai myfyrwyr sicrhau eu bod yn deall y gofynion hyn yn llwyr. Os nodir nad yw myfyriwr wedi bodloni gofynion ymroddiad academaidd a/neu gyflwyno gwaith, dylai Cyfarwyddwr yr Athrofa (neu'r sawl a awdurdodir ar ei ran) neu unigolyn a ddynodwyd yn ei le gyfweld y myfyriwr a chymryd unrhyw gamau ymgynghori ffurfiol eraill y tybir sy'n angenrheidiol.

4.3 Ar ôl cyfweld y myfyriwr ac ar ôl cymryd unrhyw gamau ymgynghori priodol, os nad oes eglurhad boddhaol wedi dod i'r amlwg, dylai Cyfarwyddwr yr Athrofa (neu'r sawl a awdurdodir ar ei ran) roi rhybudd ffurfiol sy'n nodi, os na fydd gwaith y myfyriwr yn gwella, y bydd eu cofrestriad yn cael ei derfynu naill ai dros dro neu'n barhaol.

4.4 Os nad yw cynnydd y myfyriwr yn gwella, neu os na ddaw'r myfyriwr i'r cyfweliad, bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran (neu'r sawl a awdurdodir ar ei ran) yn anfon adroddiad i Bennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) yn argymell bod cofrestriad y myfyriwr yn cael ei derfynu naill ai dros-dro neu'n barhaol. Bydd Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) yn cadarnhau bod y Rheoliad hwn a'r canllawiau a gyhoeddir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd wedi'u dilyn ac yn hysbysu'r myfyriwr yn ffurfiol y bydd yn cael ei ddiarddel dros-dro neu'n barhaol.

4.5 Os nodir nad yw myfyriwr wedi bodloni'r lefelau presenoldeb a chynnydd academaidd gofynnol yn ystod y trydydd tymor, bydd yn cael ei g/chyfweld fel a nodir yn 4.2 uchod. Ni fydd cofrestriad myfyriwr o'r fath yn cael ei derfynu bryd hynny, ond rhoddir gwybod i'r myfyriwr y bydd y Byrddau Arholi perthnasol ar ddiwedd y sesiwn yn ystyried hyn ac y gallant benderfynu na ddylid caniatáu i'r myfyriwr ddod yn ôl i'r Brifysgol.

4.6 Os gwneir penderfyniad i derfynu cofrestriad myfyriwr mewn Bwrdd Arholi adrannol, dylai'r penderfyniad hwnnw gael ei gofnodi yng nghofnodion y Bwrdd Arholi adrannol, a dylai'r dogfennau cysylltiedig gael eu hanfon ymlaen at y Gofrestrfa Academaidd. Bydd Bwrdd Arholi'r Senedd yn cadarnhau cofrestriad pa fyfyrwyr fydd yn cael ei derfynu, a bydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn dilyn y Byrddau. Bydd argymhelliad Bwrdd Arholi'r Senedd i derfynu cofrestriad myfyriwr dros dro neu'n

barhaol yn amodol ar wiriad gan y Gofrestrfa Academaidd i sicrhau bod y cyfadrannau wedi dilyn y weithdrefn a nodir yn y Rheoliad Academaidd ar Gynnydd Academaidd.

4.7 Ceir hyd i'r holl ffurflenni templed yn adran 3.13 o'r LLAA: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/.

4.8 Bydd y Gyfadran yn rhoi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd o'i phenderfyniadau ym mhob achos. Bydd Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai), yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig am y penderfyniadau i'w ddiarddel ac am hawl y myfyriwr i gyflwyno apêl cyn pen pum diwrnod gwaith.

4.9 Mae gan y myfyriwr **10 diwrnod gwaith** i gyflwyno apêl. Mae copi o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd ar gael https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/appeals/

4.10 Bydd myfyrwyr Meistr Ar-lein yn cael gwybod yn ysgrifenedig os yw diffyg ymgysylltiad â'u hastudiaethau yn sbarduno proses tynnu'n ôl barhaol. Mewn achosion o'r fath, bydd y myfyriwr yn cael cyfle i roi eglurhad boddhaol am y diffyg ymgysylltiad â'u hastudiaethau.

**5. UWCHRADDEDIGION YMCHWIL**

5.1 Dim ond os ydynt yn parhau i wneud cynnydd derbyniol ar y rhaglen waith a'r amserlen y cytunwyd arnynt gan y goruchwylwyr, gan gynnwys cyflwyno drafftiau ysgrifenedig o fewn cyfnodau y cytunwyd arnynt, y caniateir i uwchraddedigion ymchwil barhau â'u cwrs astudio cymeradwy.

5.2 Ar sail argymhelliad Pwyllgor Monitro Ymchwil yr Adran/Cyfadran, bydd gan Bennaeth yr Academi Ddoethurol (neu enwebai) rym i fynnu bod myfyrwyr nad yw eu perfformiad academaidd yn foddhaol yn cael:

5.2.1 eu hatal rhag symud ymlaen o'r cyfnod prawf
5.2.2 eu hatal rhag symud ymlaen i'r flwyddyn ymchwil nesaf
5.2.3 eu hatal rhag uwchraddio o radd Ymchwil Meistr i Ddoethuriaeth

5.2.4 eu hisraddio o Ddoethuriaeth i radd Ymchwil Meistr

5.2.5 eu diarddel o'r Brifysgol yn barhaol.

5.3 Gall gofynion o'r fath fod yn absoliwt neu'n amodol ar i'r myfyrwyr o dan sylw fethu â bodloni amod sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau a bennwyd gan y Pwyllgor Monitro Ymchwil.

5.4 Dylai Pennaeth yr Academi Ddoethurol (neu enwebai) roi gwybod i Bennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) gan ddefnyddio Templed H – Monitro Cynnydd Myfyrwyr. Bydd Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am benderfyniadau o'r fath yn ysgrifenedig cyn pen pump diwrnod, ac am hawl y myfyriwr i Adolygiad.

5.5 Ceir hyd i'r holl ffurflenni templed yn adran 3.13 o'r LLAA: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/.

5.6 Mae gan fyfyriwr **10 diwrnod gwaith** o ddyddiad y llythyr i gyflwyno apêl erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Monitro Ymchwil. Mae copi o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd ar gael https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/appeals/.

Adolygwyd: Medi 2024

**Rheoliad ynghylch Ymddygiad Annerbyniol**

- 1. Rhagair

1.1 Trwy gydol y ddogfen hon mae'r gair 'Prifysgol' yn cyfeirio at Brifysgol Aberystwyth. Gallai'r ymadroddion 'Cadeirydd y Bwrdd Arholi', 'Dirprwy Gofrestrydd gyda chyfrifoldeb am yr Arholiadau', 'Cofrestrydd Academaidd' a 'Dirprwy Is-Ganghellor' gynnwys aelodau penodedig o'r staff sy'n gweithredu ar ran yr aelodau staff hyn ('enwebai').

1.2 Dylai myfyrwyr ac aelodau o staff ddarllen y ddogfen hon ar y cyd â'r adran berthnasol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

1.3 Bydd y Brifysgol fel arfer yn datrys pob achos o fewn chwe wythnos o anfon yr hysbysiad cyntaf at y myfyriwr am yr honiad.

1.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cael eich cyfeirio at y broses Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn aml yn cael ei ragflaenu gan, neu'n cyd-fynd ag, adfyd arall a dwysâd mewn gofid. Felly, rydym yn eich annog i ofyn am gymorth cyfrinachol gan y Gwasanaeth Lles, nad yw'n datgelu ei waith â'r brifysgol yn ehangach ac eithrio os oes risg diogelu difrifol. Efallai yr hoffai myfyrwyr chwilio am gymorth gan Undeb y Myfyrwyr hefyd, a all helpu drwy eich tywys drwy'r broses a'ch cefnogi drwy ddod i'r cyfarfod panel gyda chi.

- 2. Diffiniad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

2.1 Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yw cyflawni unrhyw weithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef/iddi hi ei hun neu i rywun arall. Bydd y Rheoliad hwn yn berthnasol, a gellir canfod bod myfyriwr wedi cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, beth bynnag fo bwriad y myfyriwr a chanlyniad y weithred, a boed y myfyriwr yn gweithredu ar ei ben/phen ei hun neu ar y cyd ag unigolyn arall/unigolion eraill. Gellir cynnwys unrhyw weithredoedd yn y diffiniad hwn, boed hwy'n digwydd yn ystod neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, cyflwyno tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall i Fyrddau Arholi, neu unrhyw fath ar asesiad a wneir wrth ymgeisio am gymhwyster neu ddyfarniad gan y Brifysgol.

At ddibenion ymchwiliadau YAA, mae elfen asesu yn dasg neu elfen benodol sy'n cyfrannu at farc cyffredinol y modiwl. Mae elfennau asesu yn cynnwys, ond heb fod yn

gyfyngedig i: arholiadau ysgrifenedig a llafar, traethodau, gwaith ymarferol yn y labordy, adroddiadau, cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar, posteri, portffolios, arddangosfeydd, perfformiadau, traethodau hir, adroddiadau, Cwestiynau Amlddewis, arholiadau ar-lein. Diben gwahanol elfennau yw asesu'r sgiliau a'r dysgu (?) sydd eu hangen i fodloni canlyniadau dysgu'r modiwl. Bydd gwerth yr holl elfennau asesu yn adio i 100% o'r asesiad cyffredinol y modiwl. Gall rhai elfennau fod â gwerth uwch nag eraill. Weithiau, gall elfen asesu gynnwys sawl is-elfen, er enghraifft nifer o brofion yn y dosbarth. Pan fo is-elfen o elfen asesu o dan ymchwiliad ar gyfer YAA ac mae'r honiad wedi'i gadarnhau, bydd y gosb YAA yn cael ei chymhwyso i'r is-elfen dan ymchwiliad, nid i'r elfen asesu gyfan.

2.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y categorïau canlynol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, a gall achosion eraill ddod o fewn i ddiffiniad cyffredinol Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

**(i) Llên-ladrad**

Y diffiniad o lên-ladrad yw defnyddio gwaith rhywun arall a'i gyflwyno gan honni mai eich gwaith eich hun ydyw. Mae enghreifftiau o lên-ladrad yn cynnwys

- dyfynnu heb ddefnyddio dyfynodau
- copïo gwaith rhywun arall
- cyfieithu gwaith rhywun arall heb gydnabod hynny
- aralleirio neu addasu gwaith rhywun arall heb gydnabod hynny'n gywir
- defnyddio deunydd wedi'i lawrlwytho o'r rhyngrwyd heb gydnabod hynny
- defnyddio deunydd a gafwyd gan fanc traethodau neu asiantaethau tebyg
- cyflwyno gwaith a gynhyrchwyd gan Ddeallusrwydd Artiffisial fel eich gwaith eich hun

**(ii) Cydgynllwynio**

Mae cydgynllwynio'n digwydd pan fydd gwaith a gyflawnir gan eraill neu gydag eraill yn cael ei gyflwyno gan honni mai gwaith un unigolyn ydyw. Os yw gwaith un neu fwy o

unigolion yn cael ei gyflwyno yn enw rhywun arall a bod yr awdur/awduron gwreiddiol yn ymwybodol o hynny, mae'n bosibl yr ystyrir bod pawb fu ynghlwm â hyn yn euog o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

Mae'n bosibl yr ystyrir bod myfyrwyr sy'n llwytho copïau o'u haseiniadau eu hunain (neu aseiniadau pobl eraill) i safleoedd rhannu ffeiliau academaidd wedi cyflawni ymddygiad academaidd annerbyniol ar y sail bod gweithgaredd o'r fath yn hwyluso llên-ladrad ac yn gyfystyr â chydgynllwynio, ac eithrio lle caniateir hyn yn benodol gan yr adran.

Mae enghreifftiau o gydgynllwynio yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- Dau neu fwy o fyfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cyflwyno'r gwaith fel eu gwaith eu hunain
- Rhannu data neu wybodaeth arall sy'n cael ei chyflwyno heb yn wybod i'r awduron gwreiddiol neu heb eu cydnabod
- Rhannu atebion yn ystod arholiad neu asesiad wedi'i amseru ar-lein
- Cyflwyno enghreifftiau o waith i wefannau rhannu ffeiliau academaidd

**(iii) Ffugio tystiolaeth neu ddata**

Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata o'r fath mewn gwaith i'w asesu yn cynnwys gwneud honiadau ffug mai chi gyflawnodd arbrofion, arsylwadau, cyfweliadau neu ddulliau eraill o grynhoi a dadansoddi data. Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata o'r fath hefyd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ffug neu dystiolaeth a ffugiwyd ynglŷn ag amgylchiadau arbennig i Banel Apêl neu Fwrdd Arholi.

**(iv) Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn arholiadau ffurfiol**

Mae enghreifftiau o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn arholiadau ffurfiol yn cynnwys y canlynol:

- mynd ag unrhyw ffurf anawdurdodedig ar ddeunydd i mewn i ystafell arholi a/neu gyfleuster cysylltiedig, megis llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd, dyfais electronig, gwybodaeth a geir trwy unrhyw ddyfais

electronig, neu unrhyw ffynhonnell o wybodaeth anawdurdodedig, ni waeth a yw'r deunyddiau hyn yn berthnasol i'r pwnc dan sylw ai peidio

- copïo gwaith gan, neu gyfathrebu ag, unrhyw berson arall yn yr ystafell arholi a/neu gyfleuster cysylltiedig, ar wahân i'r hyn a awdurdodir gan oruchwyliwr
- cyfathrebu'n electronig ag unrhyw un arall, ar wahân i'r hyn a awdurdodir gan oruchwyliwr
- esgus bod yn ymgeisydd penodol mewn arholiad neu ganiatáu i rywun arall gymryd eich lle gan esgus mai chi ydyw
- cyflwyno sgript arholiad gan honni mai eich gwaith chi ydyw, er bod y sgript yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd trwy ddulliau anawdurdodedig
- peidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau ysgrifenedig i ymgeiswyr mewn arholiadau ffurfiol, nac â chyfarwyddiadau llafar gan oruchwylwyr yr arholiadau

Ystyrir bod dyfais electronig o fewn y Rheoliad os yw’n gallu gwneud unrhyw un o'r pethau canlynol: cyfathrebu’n electronig o fewn neu oddi allan i ystafell arholi, cysylltu â’r rhyngrwyd, dal data neu wybodaeth ddigidol, gwneud recordiadau sain, cadw cof digidol neu recordiadau sain, llwytho data neu wybodaeth ddigidol i ddyfais arall, arddangos data neu wybodaeth ddigidol neu chwarae recordiadau sain.

Bydd pob un o’r canlynol yn cael eu hystyried yn y categori hwn, ond nid yw’r rhestr yn gyflawn a bydd dyfeisiau eraill nas manylir yn eu cylch yn dod o fewn y Rheoliad: ffôn symudol, oriawr glyfar, gliniadur, cyfrifiadur llechen, dyfais storio data, derbynnydd Bluetooth, clustffonau, i-pod, cyfrifiannell electronig ac eithrio’r rhai a ganiateir yn benodol ar gyfer arholiadau prifysgol.

**(v) Ailgylchu data neu destun**

Ailgylchu data neu destun mewn mwy nag un asesiad, pan fo'r Adran yn benodol yn peidio â chaniatáu hyn.

**(vi) Cyflwyno gwaith a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial (DA) fel eich gwaith eich hun**

Dylid cydnabod unrhyw ddefnydd o DA cynhyrchiol mewn asesiad yn eglur yn y gwaith a dylai gydymffurfio â chanllawiau'r Brifysgol a'r adrannau ar y defnydd o DA. Bydd unrhyw asesiadau sy'n cael eu cynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan DA heb gydnabyddiaeth a/neu gyfeirio priodol yn cael eu hystyried yn Ymddygiad Academaidd Annerbyniol. Dylai myfyrwyr gyfeirio at y Canllawiau cyffredinol ar ddefnyddio DA yn ddiogel: https://www.aber.ac.uk/cy/is/regulations/canllawiau-ar-da/. Mae rhagor o wybodaeth am DA a sut i'w ddefnyddio'n diogel a moesegol ar gael yn https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/ai/#defnyddio-da-ar-gyfer-eich-astudiaethau.

- 3. Adroddiad am Amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn Arholiadau

3.1 Os amheuir bod myfyriwr yn cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn arholiad ffurfiol, dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr, ym mhresenoldeb tyst os oes modd, y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ynglŷn â'r amgylchiadau. Dylid caniatáu, fodd bynnag, i'r myfyriwr barhau â'r arholiad ac unrhyw arholiad(au) wedi hynny heb ragfarnu unrhyw benderfyniad y gellid ei wneud. Fodd bynnag, nid yw methu â rhoi rhybudd o'r fath yn rhagfarnu'r camau a gymerir wedi hynny.

3.2 Pan fydd ymgeisydd yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu lafar mewn arholiad dylai'r goruchwyliwr roi gwybod i'r Dirprwy Gofrestrydd am yr amgylchiadau, a bydd ef/hi yn cyfweld â'r myfyriwr ac yn penderfynu ar gosb (gweler adran 7).

3.3. Os canfyddir bod gan fyfyriwr yn ei feddiant/meddiant unrhyw ddyfais electronig anawdurdodedig (yn unol â'r diffiniad yn adran 2.1 (iv)), **nad** yw wedi cael ei defnyddio neu lle na cheir **unrhyw dystiolaeth** ei bod wedi cael ei defnyddio, bydd y goruchwyliwr yn cymryd y ddyfais ac yn rhoi gwybod am yr amgylchiadau i'r Dirprwy Gofrestrydd. Bydd y Dirprwy Gofrestrydd yn cyfweld â'r myfyriwr ac yn penderfynu a ddylid pennu cosb (gweler adran 7).

3.4 Os ceir amheuaeth/tystiolaeth bod y ddyfais electronig wedi cael ei defnyddio o bosibl, bydd y goruchwyliwr yn cymryd y ddyfais ac yn rhoi gwybod am yr amgylchiadau i'r Dirprwy Gofrestrydd a fydd, cyn gynted â phosibl, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r Gofrestrfa Academaidd i'w gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol.

3.5 Os canfyddir bod gan fyfyriwr ddeunydd anawdurdodedig, ac y gellir gweld yn amlwg nad yw'n berthnasol i'r papur arholiad, bydd y goruchwyliwr yn cymryd y deunydd ac yn rhoi gwybod am yr amgylchiadau i'r Dirprwy Gofrestrydd, a fydd yn cyfweld â'r myfyriwr ac yn penderfynu a yw'r achos yn cael ei gadarnhau.

3.6 Os ceir amheuaeth/tystiolaeth bod y deunydd anawdurdodedig yn uniongyrchol berthnasol i'r arholiad, bydd y goruchwyliwr yn cymryd y deunydd a bydd y Dirprwy Gofrestrydd, cyn gynted â phosibl, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r Gofrestrfa Academaidd er mwyn ei gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol.

3.7 Mewn achosion lle bydd myfyriwr wedi ysgrifennu ar ei gorff/chorff, gellir tynnu llun o hynny yn dystiolaeth.

3.8 Gall y Dirprwy Gofrestrydd ofyn i aelod o staff o'r adran academaidd ddod i'r arholiad a chadarnhau a yw'r deunydd anawdurdodedig yn berthnasol i'r pwnc/arholiad.

3.9 Pan fydd goruchwyliwr yn amau mathau eraill o ymddygiad academaidd annerbyniol na restrwyd uchod, rhoddir gwybod am hyn i'r Dirprwy Gofrestrydd a fydd, cyn gynted â phosibl, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r Gofrestrfa Academaidd er mwyn ei gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol.

- 4. Rhoi gwybod am Amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn amgylchiadau heblaw arholiadau

4.1 Dylai pob aelod o staff sy’n amau bod Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi digwydd gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol, ynghyd â'r dystiolaeth ddogfennol berthnasol, yn unol â’r Canllawiau ar Ymddygiad Academaidd.

4.2 Cyfrifoldeb yr aelodau o staff sy'n cyflwyno adroddiad ynghylch amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fydd darparu'r holl dystiolaeth ddogfennol berthnasol, gan gynnwys datganiadau tystion a chopïau o ffynonellau yr amheuir iddynt gael eu defnyddio.

4.3 Yn achos prawf sy'n cyfrannu at ganlyniad terfynol y modiwl, a gynhelir dan adain yr Adran, bydd y goruchwyliwr yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol.

4.4 Dylai arholwr mewnol neu allanol neu unrhyw unigolyn arall sydd, yn ystod y cyfnod marcio neu wedi hynny, yn amau bod myfyriwr wedi cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, roi gwybod am y mater yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol cyn gynted â phosibl.

- 5. Amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn graddau ymchwil

5.1 Os oes aelod o staff neu arholwr yn amau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn traethawd ymchwil neu waith arall a gyflwynir i'w arholi am radd ymchwil, cyfeirir yr achos i'r Gofrestrfa Academaidd, a fydd yn cynnull Panel y Brifysgol i ystyried yr achos, yn unol ag adran 11 y Rheoliad.

5.2 Os oes aelod o staff neu arholwr yn amau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn modiwlau hyfforddiant ymchwil trwy gwrs y mae'r myfyriwr ymchwil yn eu dilyn, dylid rhoi gwybod am yr honiad ac ymchwilio iddo yn yr un modd ag y gwneir yn achos modiwlau a ddysgir (gweler y manylion yn adrannau 2-11). Gall y Gyfadran y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ynddi gynnull panel os oes angen Panel Cyfadran.

- 6. Camau Cychwynnol i'w cymryd gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi Perthnasol

6.1 Pan fydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol yn derbyn adroddiad ysgrifenedig am amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol bydd yn adolygu'r adroddiad a'r dystiolaeth sydd wedi ei darparu, ac yn rhoi un o'r gweithdrefnau canlynol ar waith, ar ôl ymgynghori â'r adran berthnasol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

i) Ymchwiliad gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi;

ii) Ymchwiliad gan Banel y Gyfadran;

iii) Ymchwiliad gan Banel y Brifysgol.

- 7. Ymchwiliad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau)

7.1 Pan fydd y Dirprwy Gofrestrydd yn derbyn adroddiad ynghylch amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn arholiad ffurfiol, bydd yn ystyried yr achos a amheuir ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd.

7.2 Os bodlonir y Dirprwy Gofrestrydd, ar sail pob tebygolrwydd, bod yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi'i gadarnhau, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir, ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad a'r gosb a bennir. Bydd y myfyriwr hefyd yn cael gwybod bod ganddo/ganddi hawl i wneud cais am adolygiad neu ofyn i'r achos gael ei gyfeirio at Banel y Gyfadran er mwyn ymchwilio iddo.

7.3 Os bodlonir y Dirprwy Gofrestrydd nad oes achos o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir cyn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad, a'i hysbysu na chymerir camau pellach.

- 8. Ymchwiliad gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi

8.1 Pan fydd y Cadeirydd yn derbyn adroddiad ynghylch amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, bydd yn ystyried yr achos a amheuir ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mewn achosion o wrthdaro buddiannau, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn enwebu aelod gwahanol o staff i ystyried yr achos.

8.2 Os bodlonir y Cadeirydd, ar sail pob tebygolrwydd, bod yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi'i gadarnhau, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir, ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad a'r gosb a bennir. Bydd y myfyriwr hefyd yn cael gwybod bod ganddo/ganddi hawl i wneud cais am adolygiad neu ofyn i'r achos gael ei gyfeirio at Banel y Gyfadran er mwyn ymchwilio iddo.

8.3 Wedi i’r canlyniad gael ei gadarnhau i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau a chanddynt achrediad proffesiynol, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn rhoi gwybod i gydlynydd y cynllun, a dylai’r cydlynydd ystyried a oes angen cyfeirio’r achos at y panel addasrwydd i ymarfer hefyd.

8.4 Os bodlonir y Cadeirydd nad oes achos o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir cyn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad, a'i hysbysu na chymerir camau pellach.

- 9. Canllawiau cyffredinol i'r panel/cyfweliad YAA i bennu dilysrwydd y gwaith: cyfansoddiad a threfniadaeth

9.1 Lle bo'n bosibl, ni ddylai aelodau'r panel fod wedi ymwneud ag achosion blaenorol o YAA ar gyfer yr un myfyriwr.

9.2 Rhaid i swyddog ysgrifenyddol gadw cofnod ysgrifenedig o wrandawiad panel neu gyfweliad i benderfynu dilysrwydd y gwaith, fel arfer aelod o dîm gweinyddol y Gyfadran/Cofrestrfa; ni ddylai'r swyddog ysgrifenyddol fod yn aelod o'r panel.

9.3 Ni ddylai'r staff sydd wedi gwneud yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fod yn aelodau o'r panel ac ni ddylent gyfrannu at y penderfyniad o gwbl. Fodd bynnag, bydd yr aelod o staff a wnaeth yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fel arfer yn aelod o'r panel cyfweld fel arbenigwr pwnc.

9.4 Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn swyddogol am ddyddiad, lleoliad ac amser cyfarfod y panel/cyfweliad, a bod cyfle iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod. Dylid hysbysu'r myfyriwr ynghylch pwy yw aelodau'r panel cyn y cyfarfod a gall y myfyriwr ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn y cyfarfod.

9.5 Dylid rhoi rhybudd rhesymol i'r myfyriwr a'r panel allu paratoi ar gyfer panel/cyfweliad. Byddai hyn fel arfer rhwng 5-7 diwrnod calendr. Dim ond mewn achosion prin, a gyda rheswm da (er enghraifft, lle gall symud ymlaen fod yn ddibynnol ar ganlyniad achos YAA), gellir rhoi rhybudd byrrach.

9.6 Bydd cyfle i'r myfyriwr gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig cyn cyfarfod y panel/cyfweliad, gan gynnwys tystiolaeth o amgylchiadau arbennig. Dylai unrhyw dystiolaeth a dogfennau ategol gael eu cyflwyno mewn un e-bost, heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn y panel a drefnwyd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, er enghraifft, lle mae maint y ffeil neu faint cyfunol y dogfennau yn rhy fawr i'w cynnwys mewn un e-bost (neu mewn atodiad i ebost), neu os bydd myfyriwr yn

derbyn tystiolaeth feddygol lai na 48 awr cyn cyfarfod y panel/cyfweliad. Bydd unrhyw dystiolaeth a anfonir ar ôl y dyddiad cau yn cael ei hystyried gan y panel ar ôl cyfarfod y panel/cyfweliad, nid yn ystod y cyfarfo.

9.7 Gall y myfyriwr gael cwmni cynghorydd o Undeb y Myfyrwyr. Gall yr ymgynghorydd o Undeb y Myfyrwyr fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r myfyriwr ond ni chaiff eirioli dros y myfyriwr na siarad ar eu rhan. Bydd presenoldeb gan unrhyw unigolion eraill yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, a dylid gwneud unrhyw geisiadau am bresenoldeb unigolion heblaw cynghorydd o Undeb y Myfyrwyr yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd cyn cyfarfod y panel/cyfweliad. Fel arfer ni chaniateir cynrychiolaeth gyfreithiol yn y cyfarfod.

9.8 Os nad yw myfyriwr yn bresennol mewn cyfarfod o'r panel/cyfweliad heb fod ganddynt reswm da, gall y cyfarfod fynd yn ei flaen hebddynt.

9.9 Lle bo'n bosibl, ni ddylid trefnu cyfarfodydd panel/cyfweliad yn ystod cyfnodau arholiadau neu cyn bod y myfyriwr wedi cwblhau eu harholiadau. Pan fo myfyriwr yn ymwybodol bod ymchwiliad YAA arfaethedig cyn yr arholiadau, dylid rhoi'r opsiwn iddynt ohirio'r panel/cyfweliad i gyfnod ar ôl iddynt orffen eu harholiadau, neu i'w gynnal yn ystod cyfnod yr arholiadau.

9.10 Lle bo angen, gall panel y gyfadran/prifysgol ofyn i arbenigwr pwnc fod yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd yr arbenigwr pwnc yn aelod o staff PA, fel arfer o adran academaidd y myfyriwr. Ni fydd yr arbenigwr pwnc yn aelod o'r panel ac ni fydd yn bresennol yn nhrafodaeth y panel, ac ni fyddant yn cymryd rhan yn y penderfyniad. Rôl yr arbenigwr pwnc fydd darparu gwybodaeth bwnc-benodol ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r pwnc a allai fod gan y panel. Pan fydd y myfyriwr yn bresennol, rhoddir cyfle iddynt godi unrhyw faterion ar ôl i'r arbenigwr pwnc adael y cyfarfod. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r myfyriwr siarad yn rhydd a chodi unrhyw faterion sydd ganddynt ynglŷn â'r arbenigwr pwnc.

9.11 Yn dilyn canlyniad y cyfarfod, gellir cyfeirio myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol at y panel addasrwydd i ymarfer lle bo angen.

- 10. Ymchwiliad gan Banel y Gyfadran

10.1 Pan fydd y Gyfadran yn derbyn adroddiad ynghylch amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, bydd yn cynnull panel bychan i ymchwilio i'r achos. Bydd y panel yn cynnwys Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) neu enwebai ac o leiaf un aelod o'r staff academaidd nad yw'n gysylltiedig â'r asesiad dan sylw. Bydd Swyddog Ysgrifenyddol yn bresennol i gadw cofnodion o'r cyfarfod.

10.2 Pan fydd achos yn cael ei gyfeirio at banel y gyfadran ar ôl cyfweliad i bennu dilysrwydd y gwaith, ni chaniateir i aelodau'r panel cyfweld gymryd rhan ym mhanel y gyfadran. Gall y swyddog ysgrifenyddol, nad yw'n aelod o'r panel, fod yr un swyddog ysgrifenyddol ag a ddaeth i'r cyfweliad.

10.3 Bydd yr wybodaeth am y panel a'r gwahoddiad i gyfarfod y panel yn cael eu cyfathrebu i'r myfyriwr gan aelod o dîm gweinyddol y gyfadran.

- 11. Cyfweliad i bennu Dilysrwydd y Gwaith

11.1 Pan fydd Cadeirydd Bwrdd Arholi yn derbyn adroddiad ynghylch amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol lle ceir ansicrwydd ai gwaith y myfyriwr ei hun a gyflwynwyd, ac os nad yw'r aelod o staff yn gallu dod o hyd i dystiolaeth ddogfennol i gefnogi achos o YAA, er enghraifft os amheuir bod y gwaith wedi'i gael o fanc traethodau neu wedi'i gynhyrchu drwy feddalwedd AI, gall benderfynu y dylid cynnal cyfweliad i bennu dilysrwydd y gwaith.

11.2 Oherwydd bod rheswm i gredu nad gwaith y myfyriwr ei hun yw'r gwaith yn ei gyfanrwydd, diben y cyfweliad yw profi gwybodaeth y myfyriwr am y gwaith a gyflwynwyd ac i roi cyfle i'r myfyriwr ddangos mai ei waith ef/gwaith hi yw'r gwaith dan sylw, cyn ymchwiliad gan banel Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (os yw'n briodol).

11.3 Bydd y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd sy'n annibynnol ar yr honiad, ac arbenigwr yn y pwnc (fel arfer y marciwr a wnaeth yr honiad neu gydlynydd y modiwl). Rhaid cadw cofnod o'r cyfweliad ar ffurf cofnodion ysgrifenedig gan swyddog ysgrifenyddol y panel cyfweld, a gellir eu hychwanegu at y dystiolaeth ar gyfer yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

11.4 Bydd yr wybodaeth am y panel a'r gwahoddiad i gyfarfod y panel cyfweld yn cael eu cyfathrebu i'r myfyriwr gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi (neu enwebai).

11.5 Wedi'r cyfweliad bydd y panel yn rhoi eu barn am wybodaeth y myfyriwr am y gwaith ac yn rhoi'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghofnodion y cyfweliad.

11.6 Pan fydd y panel cyfweld yn penderfynu nad yw'r myfyriwr wedi dangos mai ei eiddo ef/heiddo hi yw'r gwaith dan sylw, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn cyfeirio'r achos at Banel YAA er mwyn cynnal ymchwiliad i honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, ynghyd â manylion yr honiad a'r adroddiad o'r cyfweliad.

11.7 Pan fo myfyriwr yn cyfaddef eu bod yn euog o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn rhan o'r broses gyfweld, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn cyfeirio'r achos at y Gofrestrfa Academaidd i benderfynu ar y gosb briodol. Ni fydd yn ofynnol i'r panel YAA gwrdd â'r myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael cyfle i ofyn i'r panel YAA ystyried eu hachos os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y cyfweliad.

11.8 Pan fydd y panel cyfweld yn penderfynu bod y myfyriwr wedi dangos mai ei eiddo ef/hi yw'r gwaith dan sylw, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn rhoi gwybod i gydlynydd y modiwl y dylid marcio'r gwaith yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd gan yr Adran a rhoi gwybod i'r myfyriwr na chymerir unrhyw gamau pellach.

- 12. Ymchwiliad gan Banel Prifysgol

12.1 Bydd y Brifysgol yn sefydlu Panel Sefydlog er mwyn ymchwilio i achosion lle amheuir Ymddygiad Academaidd Annerbyniol. Bydd pob Cyfadran yn enwebu aelod o staff academaidd i wasanaethu ar y Panel Sefydlog.

12.2 Pan dderbynnir honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol gan Gadeirydd Bwrdd Arholi, bydd y Gofrestrfa Academaidd yn trefnu cynnull Panel Prifysgol. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn ymwneud â'r achos, ynghyd â'r holl dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol.

12.3 Bydd tri aelod ar Banel y Brifysgol, wedi'u dethol o'r Panel Sefydlog; penodir un ohonynt yn Gadeirydd, a swyddog ysgrifenyddol i'r panel a fydd yn cadw cofnod o'r cyfarfod. Pan fo'n bosibl, ni fydd aelod o unrhyw Banel Prifysgol yn dod o Adran(nau) y

myfyriwr. Mewn achosion lle mae aelod o'r panel yn dod o adran y myfyriwr, bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am hyn a gall y myfyriwr ofyn am banel newydd os oes gwrthdaro buddiannau. Ni ddylai unrhyw aelod o Banel Prifysgol fod wedi ymwneud ag achosion blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ar gyfer yr un myfyriwr.

- 13. Swyddogaethau Panel y Gyfadran/Brifysgol

13.1 Dyma fydd swyddogaethau'r cyfryw baneli:

i) ystyried y dystiolaeth a gyflwynir iddo ynghylch yr amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol;

ii) penderfynu a yw'r honiad wedi'i gadarnhau ar sail pob tebygolrwydd;

iii) penderfynu, mewn achosion lle mae'r honiad wedi'i gadarnhau, pa gosb i'w phennu.

- 14. Y drefn yn ystod y cyfarfod

14.1 Os ceir amheuaeth bod dau fyfyriwr neu ragor ynghlwm ag achosion cysylltiedig o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, gall Cadeirydd y panel benderfynu ymdrin â'r achosion ar y cyd. Fodd bynnag, rhoddir cyfle i bob myfyriwr wneud cais ar i'r achosion gael eu gwrando ar wahân.

14.2 Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno crynodeb o'r achos yn erbyn y myfyriwr, gan gyfeirio at y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w hystyried gan y panel. Caiff y panel ofyn cwestiynau i'r myfyriwr a'r arbenigwr ar gyfer y pwnc os yw'n bresennol.

14.3 Bydd gan y myfyriwr yr hawl i glywed yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r achos cyn ymateb i'r honiad, ac i fod yn bresennol i gyflwyno ymateb i'r panel. Ni cheir cyflwyno tystiolaeth ddogfennol ychwanegol, gan gynnwys tystiolaeth o amgylchiadau arbennig, i'r panel ar ddiwrnod y cyfarfod heb gael caniatâd penodol y Cadeirydd.

14.4 Pan fydd y dystiolaeth wedi'i chyflwyno ac ymateb y myfyriwr wedi'i gwblhau, bydd pawb, ac eithrio aelodau'r panel, a'r ysgrifennydd, yn gadael y cyfarfod.

14.5 Gall y Panel, ar ôl cyfarfod y panel neu'r cyfweliad i benderfynu ar ddilysrwydd y gwaith, gysylltu â'r adran academaidd berthnasol i ofyn am ddilysiad ar gyfer unrhyw hawliadau a wneir gan y myfyriwr, neu ofyn am ragor o wybodaeth y gallai ei hystyried

wrth benderfynu ar ganlyniad. Gall unrhyw honiadau ffug arwain at gamau disgyblu pellach. Os nodir honiadau ffug ar ôl i gosb gael ei phennu, gellir adolygu'r gosb.

14.6 Os bodlonir y panel, ar sail pob tebygolrwydd, bod yr honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi'i gadarnhau, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir, ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad, a'r gosb a bennir, a hefyd am yr hawl i wneud cais am adolygiad.

14.7 Wedi i'r canlyniad gael ei gadarnhau i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau a chanddynt achrediad proffesiynol, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn rhoi gwybod i gydlynydd y cynllun, a dylai'r cydlynydd ystyried a oes angen cyfeirio'r achos at y panel addasrwydd i ymarfer hefyd.

14.8 Os bodlonir y panel nad oes achos o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn gwirio bod y drefn wedi'i dilyn yn gywir cyn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad, a'i hysbysu na chymerir camau pellach.

14.9 Rhoddir gwybod am y canlyniad drwy ebost. Ni waeth ai canfyddiad y panel yw bod yr achos wedi'i gadarnhau ai peidio, fel rheol ni roddir gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad ar lafar; ni thrafodir y penderfyniad â'r myfyriwr.

- 15. Cosbau am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn cynlluniau gradd trwy gwrs (israddedig ac uwchraddedig)

15.1 Bydd y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau) yn pennu un o'r cosbau canlynol. Nid yw'r rhain yn rhan o'r system bwyntiau ac ni fydd y troseddau'n cyfrif tuag at honiadau eraill o ymddygiad academaidd annerbyniol.

(i) Y gosb am **drosedd gyntaf** fydd rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r ymgeisydd.

(ii) Y gosb am **ail drosedd neu drosedd ddilynol** fydd uchafswm marc o 39 lle mai 40 yw'r marc pasio neu 49 lle mai 50 yw'r marc pasio ar gyfer yr asesiad. Caniateir i fyfyrwyr ailsefyll am farc wedi'i gapio os byddant yn methu'r modiwl, gan ddibynnu a oes cyfleoedd i ailsefyll ar gael iddynt.

15.2 Ymagwedd dosturiol at uniondeb academaidd

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall achosion cychwynnol neu fân o dorri’r rheolau o ran ymddygiad academaidd mewn rhai achosion ddeillio o arferion neu ofynion gwahanol mewn sefydliad addysgol blaenorol, neu system addysg, diwylliant academaidd gwahanol, neu oherwydd bwlch mewn dealltwriaeth rhwng gadael ac ail-ymuno â system addysg/addysg uwch, neu ddiffyg cefnogaeth i ddatblygu arfer ac ymddygiad academaidd da yn y gorffennol, neu amgylchiadau eraill. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod, yn unol â’r system gosbi ar sail pwyntiau, y gall unrhyw drosedd ddilynol arwain at gosb ddifrifol a allai fod â chanlyniadau difrifol i ddosbarth gradd y myfyriwr neu hyd yn oed eu gallu i gwblhau eu gradd.

Os mai honiad o Ymarfer Academaidd Annerbyniol a gadarnhawyd yw achos cyntaf, a mân y myfyriwr o dorri arfer academaidd **ym mlwyddyn gyntaf eu presenoldeb ym Mhrifysgol Aberystwyth**, a’i fod yn cyfeirio at gamgymeriad gwirioneddol, sy'n arwain at ymddygiad academaidd gwael yn hytrach nag ymddygiad academaidd annerbyniol, gall panel YAA / Cadeirydd y Bwrdd Arholi (neu enwebai) benderfynu cyfeirio'r achos i'r Llwybr Addysgol lle bydd y myfyriwr

- yn cael eu gwahodd i gwblhau'r cwrs uniondeb academaidd ar-lein (https://libguides.aber.ac.uk/referencing, a/neu https://www.aber.ac.uk/en/is/help/ai/ os yw'n briodol) o fewn cyfnod penodol o amser (pum diwrnod gwaith fel arfer) a darparu tystiolaeth o gwblhau (ar gael ar BlackBoard).
- yn gorfod mynychu unrhyw sesiynau ymarfer academaidd da pellach yn ôl cyfarwyddyd gan eu hadran academaidd.

Os yw'r myfyriwr yn cwblhau'r camau hyn o fewn yr amserlen a nodwyd, ni ddylid rhoi unrhyw gosb, a dylid marcio'r asesiad gan ddilyn y meini prawf marcio adrannol; os nad ydynt yn gwneud hynny, dylai'r adran gyfeirio’r myfyriwr yn ôl at y Gofrestrfa Academaidd a gellir dyfarnu’r gosb wreiddiol a fyddai wedi cael ei rhoi o dan y system seiliedig ar bwyntiau yn ddiweddarach.

Mae rhai enghreifftiau o fân-doriadau  o ran ymddygiad academaidd sy'n arwain at ymddygiad academaidd gwael yn hytrach nag ymddygiad academaidd annerbyniol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) cyfeirnodi gwael a llên-ladrad anfwriadol.

Y rheswm dros gynnwys dull addysgol o ran YAA yw atal honiadau pellach rhag digwydd yn effeithiol. Bydd unrhyw droseddau dilynol yn cyfrif fel ail drosedd (neu drydydd, os yw'n briodol) ar y system sy'n seiliedig ar bwyntiau.

Mewn achosion lle mae'r panel YAA o'r farn nad yw'r Llwybr Addysgol yn briodol, dylid cymhwyso'r cosbau fel y'u diffinnir yn y tabl cosbau.

15.3 Bydd Cadeiryddion Byrddau Arholi a phaneli Cyfadran a Phrifysgol yn pennu un o’r cosbau a nodir yn y Canllawiau ar Ymddygiad Academaidd.  Pennir y cosbau ar sail system sy’n seiliedig ar bwyntiau, gan ystyried yr elfennau a ganlyn:

(i) Hanes blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol;

(ii) Graddau a difrifoldeb yr Ymddygiad Academaidd Annerbyniol;

(iii) Y lefel astudio.

15.4 Ni ddylid ystyried honiadau blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wrth benderfynu a gafwyd ymddygiad o’r fath y tro hwn, ac ni ddylid tynnu sylw paneli at honiadau blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol hyd nes y penderfynir a yw’r honiad yn cael ei gadarnhau ai peidio. Wedi i benderfyniad gael ei wneud, gall y panel ystyried achosion blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a gafodd eu cadarnhau wrth bennu’r gosb, fel y nodir yn y system sy'n seiliedig ar bwyntiau.

15.5 Ni all paneli gymryd amgylchiadau arbennig i ystyriaeth wrth benderfynu a gafwyd Ymddygiad Academaidd Annerbyniol. Er hynny, gall paneli ystyried amgylchiadau personol eithriadol wrth bennu cosbau, os gellir dangos bod y rhain yn berthnasol i’r achos. Mewn achosion o’r fath, rhaid i’r myfyriwr gyflwyno rheswm da i ddangos pam na ellid bod wedi cyflwyno amgylchiadau personol o’r fath i’r Gyfadran cyn hyn er mwyn gallu ystyried ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, neu addasiadau eraill i’r asesiad dan sylw. Bydd argymhellion i leihau’r cosbau, fel rheol o un lefel, ar sail amgylchiadau arbennig yn cael eu cyflwyno i’r Gofrestrfa Academaidd er mwyn i Bennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) eu hystyried. Mewn achosion prin, gellir gwneud

argymhelliad i leihau cosb o fwy nag un lefel a bydd fel arfer yn cael ei anfon at yr Hyrwyddwr Uniondeb Academaidd i'w ystyried.

15.6 Ni chaniateir i baneli ystyried yr effaith ar symud ymlaen wrth benderfynu a oes Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi digwydd. Fodd bynnag, gall paneli ystyried yr effaith ar symud ymlaen wrth bennu cosbau os yw'r gosb yn debygol o gael effaith anfwriadol ar y myfyriwr. Bydd argymhellion i leihau cosbau ar sail effaith anfwriadol yn cael eu cyflwyno i'r Gofrestrfa Academaidd er mwyn i Bennaeth y Gofrestrfa Academaidd (neu enwebai) eu hystyried.

15.7 Pennir y cosbau yn unol â'r system gosbau sy'n seiliedig ar bwyntiau. Mewn achosion eithriadol, gall Cadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol / Cadeirydd Panel y Gyfadran neu'r Brifysgol argymell cosb fwy difrifol. Dylid cyflwyno argymhellion i'r Gofrestrfa Academaidd, gan ddarparu achos ysgrifenedig llawn i gefnogi'r argymhellion. Mewn achosion o'r fath bydd y Gofrestrfa Academaidd mewn ymgynghoriad â'r Hyrwyddwr Uniondeb Academaidd yn pennu un o'r cosbau canlynol, neu gyfuniad ohonynt:

(i) Diarddel yr ymgeisydd o'r Brifysgol am gyfnod penodol neu yn barhaol;

(ii) Gwahardd y myfyriwr o unrhyw arholiad yn y Brifysgol yn y dyfodol.

15.8 Bydd achosion lle nodir anghysondeb yn cael eu cyfeirio at yr Hyrwyddwr Uniondeb Academaidd am benderfyniad terfynol.

15.9 Mewn achosion lle mae cosb YAA yn arwain at ddyfarnu dangosydd P, F neu N ar gyfer modiwl neu fodiwlau, ni fydd modd gwyrdroi'r dangosydd hwn gan argymhellion ar gyfer dangosydd H neu ganlyniad apêl academaidd - dylai unrhyw amgylchiadau arbennig fod wedi'u datgan eisoes adeg y panel (gweler 15.5), ac os yw'n briodol, eu hystyried wrth ddyfarnu'r gosb. O dan y trefniant 'camgychwyn' yn Rhan Un, mae'r gosb YAA yn parhau i fod ar y cofnod ac ni chaniateir i fyfyriwr sydd â mwy nag 20 credyd o N gael 'camgychwyn'.

- 16. Cosbau am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol gan fyfyrwyr am raddau ymchwil uwchraddedig

16.1 Bydd y Brifysgol yn pennu un o'r cosbau a ganlyn am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn traethawd ymchwil neu mewn gwaith arall a gyflwynir i'w arholi am radd ymchwil:

i) Methu'r traethawd ymchwil, gyda chyfle i'w ailgyflwyno;

ii) Methu'r traethawd ymchwil, heb gyfle i'w ailgyflwyno.

16.2 Yn achos modiwlau hyfforddiant ymchwil bydd Cadeiryddion Byrddau Arholi a phaneli y Gyfadran a'r Brifysgol yn pennu un o'r cosbau canlynol, gan ystyried graddau a difrifoldeb yr Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a hanes blaenorol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

i) Am drosedd gyntaf, ar wahân i honiadau difrifol lle byddai angen panel prifysgol fel arfer, marc o sero i'r asesiad ac amod i ailsefyll yr asesiad am farc modiwl wedi'i gapio.

ii) Am ail drosedd, neu honiad difrifol lle bydd angen panel prifysgol, marc o sero am y modiwl ac amod i ailsefyll y modiwl.

iii) Am drydedd drosedd, diarddel y myfyriwr o'r brifysgol yn barhaol.

Yn achos y ddwy gosb gyntaf, anfonir adroddiad i Bwyllgorau Monitro'r Gyfadran berthnasol a'r Academi Ddoethurol a'u hystyried wrth benderfynu a yw myfyriwr wedi dangos digon o gynnydd i gael symud ymlaen i'r flwyddyn astudio nesaf.

- 17. Camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod y panel

17.1 Ni fydd y Brifysgol yn gwneud unrhyw ddatganiadau cyhoeddus ynglŷn â phenderfyniadau paneli Cyfadran/Prifysgol oni bai bod myfyriwr y gwnaed penderfyniad yn ei gylch/chylch yn gofyn i benderfyniad o'r fath gael ei gyhoeddi.

- 18. Rhestrau Pasio

18.1 Os oes achos o amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn cael ei ymchwilio adeg cyfarfod y Bwrdd Arholi perthnasol, bydd y Bwrdd yn gohirio ystyried gwaith y myfyriwr hyd y bydd y Gofrestrfa Academaidd wedi cyfleu'r canlyniad i'r ymgeisydd ac i Gadeirydd y Bwrdd Arholi.

18.2 Os oes achos yn cael ei ymchwilio pan fo’n bryd cwblhau’r rhestr basio, bydd enw’r ymgeisydd dan sylw yn cael ei ddal yn ôl o’r rhestr basio ac fe gyhoeddir rhestr basio atodol wedi hynny fel y bo angen.

18.3 Os oes achos o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn codi ar ôl cyhoeddi’r rhestr basio wreiddiol, neu ar ôl i gymhwyster gael ei gyflwyno, bydd gan y Bwrdd Arholi yr awdurdod i ddileu neu newid canlyniad a gadarnhawyd yn flaenorol a chyhoeddi rhestr basio atodol.

18.4 Os derbynnir honiad o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ar ôl i fyfyriwr gwblhau eu rhaglen, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ymchwilio i’r honiad ar ôl i gyfnod cadw PA ar gyfer gwaith a asesir basio. Mae hyn yn unol â pholisi e-gyflwyno'r Brifysgol a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol.

- 19. Adolygiad

19.1 Os yw myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad ymchwiliad i Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, gall ofyn am adolygiad, a fydd yn cael ei gynnal gan Ddirprwy Is-Ganghellor. Mae'r drefn ar gyfer Adolygiadau Terfynol ar gael ar https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/fr/

- 20. Dull Adrodd Ffurfiol

20.1 Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn cadw cofnodion o’r holl ymchwiliadau i amheuaeth o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i’w ystyried gan bwyllgor priodol y Brifysgol.

- 21. Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Bydd gwybodaeth yn cael ei phrosesu a’i chadw yn ôl yr hyn y bernir yn angenrheidiol er mwyn i'r Brifysgol gyflawni tasgau a wneir er budd y cyhoedd (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Erthygl 6(1)(e)) ac yn unol â'i rhwymedigaethau cytundebol (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Erthygl 6(1)(b)). Bydd yn cael ei chadw am flwyddyn ar ôl ichi gwblhau eich cwrs, oni bai bod Adolygiad Terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Brifysgol, neu fod cwyn yn cael ei chyflwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch, ac mewn achos o'r fath mae'n bosibl y bydd y cyfnod cadw'n cael ei ymestyn.

- Atodiad

Y System Gosbau yn seiliedig ar Bwyntiau

Diweddarwyd y bennod: Medi 2024